**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Canllawiau'r Llywydd

# Rheol Sefydlog 28: Gweithdrefn Cynulliad Arbennig - Cyflwyno Deisebau

Ebrill 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/deddfwriaeth**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Uned Cydgysylltu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: cysylltu@cynulliad.cymru
Twitter: @CynulliadCymru

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Canllawiau'r Llywydd

# Rheol Sefydlog 28: Gweithdrefn Cynulliad Arbennig - Cyflwyno Deisebau

Ebrill 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Cynnwys


Cyflwyniad.....5

Beth yw Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig?.....5

Lleisio barn ynghylch Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig.....5

Beth yw deiseb?.....6

Pwy sydd â hawl i gyflwyno deiseb?.....6

Faint o amser sydd gennyf i gyflwyno'r ddeiseb?.....6

Beth ddylwn i ei gynnwys yn y ddeiseb?.....6

Rydym am gyflwyno deiseb ar ran mwy nag un person; a oes modd cyflwyno deiseb ar y cyd?.....7

Sut mae cyflwyno deiseb?.....7

Cael gwybod am ddeisebau eraill.....8

Beth fydd yn digwydd ar ôl cyflwyno'r ddeiseb?.....8

Lleisio barn am ddeisebau sy'n galw am ddiwygiadau a fydd yn effeithio arnoch chi.....8

Cyflwyno gwrth-ddeiseb: pryd a sut.....8

Yr hyn sy'n digwydd ar ôl i'r Llywydd ystyried yr holl ddeisebau.....9

Rhoi barn gerbron y Pwyllgor ar ôl cyflwyno deiseb.....9

Pa gamau fydd y Pwyllgor yn eu cymryd?.....9

Yr hyn fydd yn digwydd ar ôl i'r Pwyllgor wneud ei benderfyniad.....9

Sut i dynnu deiseb yn ôl na ddymunir bwrw ymlaen â hi.....10

ATODIAD A.....11

ATODIAD B.....12

# Cyflwyniad

**01.** Mae a wnelo'r Weithdrefn Cynulliad Arbennig, fel y'i nodir yn Rheol Sefydlog 28, â'r ffordd y mae Gweinidogion Cymru (neu'r Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol mewn achosion eithriadol) yn arfer unrhyw bŵer i wneud neu i gadarnhau is-ddeddfwriaeth (sef Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig) y mae'n rhaid iddi gydymffurfio â'r Weithdrefn Cynulliad Arbennig.

**02.** Mae Rheol Sefydlog 28 yn cynnwys darpariaeth i gyflwyno deisebau i Lywydd y Cynulliad yn gwrthwynebu Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r rheolau ar gyfer cyflwyno deisebau o'r fath a'r camau cysylltiedig y bydd y Cynulliad yn eu cymryd.

**03.** Nid yw'r canllawiau hyn ond yn ymwneud â deisebau y gellir eu cyflwyno o dan y Weithdrefn Cynulliad Arbennig. Mae hon yn system gwbl wahanol i'r system sy'n caniatáu i'r cyhoedd gyflwyno deisebau cyffredinol ar unrhyw bwnc i'r Pwyllgor Deisebau eu hystyried (Rheol Sefydlog 23). Mae deiseb a gyflwynir o dan Weithdrefn Cynulliad Arbennig yn fodd o wrthwynebu math penodol o ddeddfwriaeth ddirprwyedig (sef "Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig") ac fe'i trinir mewn ffordd gwbl wahanol. Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio'r sefyllfaoedd lle bydd hawl i gyflwyno deiseb sy'n gwrthwynebu Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig.

# Beth yw Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig?

**04.** Darn o "ddeddfwriaeth ddirprwyedig" yw Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig. Golyga hynny ei fod yn cael ei wneud yn rhinwedd pŵer mewn "deddfwriaeth sylfaenol" - h.y. Deddf y Cynulliad neu Ddeddf Senedd y DU[1]. Bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn cynnwys gofyniad i'r Gorchymyn dan sylw fod yn ddarostyngedig i Weithdrefn Cynulliad Arbennig. Fel arfer, mae a wnelo Gorchmynion Gweithdrefn Arbennig â darn penodol o dir. Mae enghreifftiau'n cynnwys gorchmynion sy'n awdurdodi prynu gorfodol yn achos tir gwarchodedig penodol, a gorchmynion penodol sy'n ymwneud â chefnffyrdd a wrthwynebir gan yr awdurdod priffyrdd lleol.

**05.** Oherwydd effaith benodol gorchmynion o'r fath, rhaid i'r bobl y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt gael cyfle i gyflwyno deiseb yn eu herbyn o dan Weithdrefn Cynulliad Arbennig cyn y gellir eu gwneud yn ddeddfwriaeth. Mae hyn wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 28.

# Lleisio barn ynghylch Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig

**06.** Mae Gweithdrefn Cynulliad Arbennig yn rhoi cyfle i gyflwyno deiseb i Lywydd y Cynulliad yn gwrthwynebu Gorchmynion Gweithdrefn Arbennig drafft.

**07.** Pan osodir Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig gerbron y Cynulliad, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r cyhoedd y caiff unrhyw berson, cyn pen 20 diwrnod gwaith, gyflwyno deiseb i Lywydd y Cynulliad. Gwneir hyn drwy gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus, sy'n cynnwys y terfynau amser, mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal yr effeithir arni.

**08.** Mae posibilrwydd hefyd y bydd Gweinidogion Cymru yn gorfod cyhoeddi hysbysiadau eraill am y cynnig, a/neu gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a/neu ymchwiliad cyhoeddus i drafod gwrthwynebiadau cyn gosod Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft.

---

[1] Neu Fesur Cynulliad, lle mae'n parhau mewn grym.

# Beth yw deiseb?

**09.** Crynodeb o wrthwynebiadau yn erbyn Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yw deiseb. Mae'n gais ffurfiol i'r Llywydd:

a. yn galw am wneud diwygiadau penodol i'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig; neu

b. yn galw am beidio â gwneud na chadarnhau'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig; neu

c. y'r ddau.

# Pwy sydd â hawl i gyflwyno deiseb?

**10.** Gall unrhyw unigolyn, grŵp o unigolion, cwmni, awdurdod lleol, corff cyhoeddus, sefydliad, clwb, cymdeithas amwynder[2] neu gorff tebyg y bydd y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn effeithio arnynt, gyflwyno deiseb i'r Llywydd er mwyn i'r Cynulliad ystyried eu gwrthwynebiadau yn ffurfiol, ar yr amod bod ganddynt, ym marn y Llywydd, "sail wreiddiol dros wrthwynebu". Hynny yw, byddai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn effeithio ar eu heiddo neu ar eu buddiannau.

# Faint o amser sydd gennyf i gyflwyno'r ddeiseb?

**11.** Rhaid i ddeisebau sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig gael eu cyflwyno i'r Llywydd cyn pen 20 diwrnod gwaith[3] sy'n dechrau ar y diwrnod y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi hysbysiad ynghylch y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig am y tro cyntaf mewn papur newydd[4] - bydd yr hysbysiad yn nodi'r terfyn amser. Nid oes modd ystyried deisebau a gyflwynir ar ôl i'r 20 diwrnod gwaith ddod i ben.

# Beth ddylwn i ei gynnwys yn y ddeiseb?

**12.** Rhaid i'r ddeiseb gael pennawd sy'n cynnwys y canlynol:

a. teitl y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig;

b. eich enw llawn a'ch cyfeiriad post, neu, os mai grŵp o unigolion sy'n cyflwyno'r ddeiseb, enw a chyfeiriad pob un ohonoch.

**13.** Rhaid i'r ddeiseb esbonio pwy ydych chi a sut y byddai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft yn effeithio ar eich eiddo neu ar eich buddiannau. Os bydd y gorchymyn yn effeithio ar unrhyw dir sydd gennych, rhaid i chi ddangos yn glir ble mae'r tir hwnnw, yn ddelfrydol drwy ddarparu cynllun.

---

[2] Cymdeithas sector gwirfoddol a sefydlwyd er mwyn diogelu celfyddydau neu bensaernïaeth hanesyddol (e.e. Y Gymdeithas Henebion).
[3] Ystyr diwrnod gwaith yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio:
(i) dydd Sadwrn neu ddydd Sul;
(ii) Noswyl Nadolig; Dydd Nadolig, dydd Iau Cablyd a dydd Gwener y Groglith;
(iii) diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru;
(iv) diwrnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.
[4]Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn ymwneud â hi, ond gellir ei gyhoeddi ar fwy nag un dyddiad. D.S. Bydd y terfyn amser o 20 diwrnod gwaith yn rhedeg o'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad gyntaf. I gael cadarnhad o'r dyddiad hwn, cysylltwch ag Uned Craffu a Chydgysylltu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ffôn 0300 200 6565.

**14.** Yn olaf, rhaid i'r ddeiseb nodi pa gamau yr ydych chi am eu gweld yn cael eu cymryd. Hynny yw, a ydych chi am i'r Cynulliad atal y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig rhag cael ei wneud yn gyfan gwbl, ynteu a ydych am ei weld yn cael ei ddiwygio mewn rhyw ffordd. Rhaid i chi hefyd nodi eich rhesymau. Nid oes angen mynd i ormod o fanylder ynghylch eich gwrthwynebiad: mae rhoi amlinelliad byr yn ddigon.

**15.** Os byddwch yn gofyn am ddiwygio'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig, rhaid i'ch deiseb nodi'n glir sut y dylid ei ddiwygio (hynny yw, rhaid i'ch deiseb gynnwys geiriad y diwygiad a'ch rhesymau drosto).

**16.** Os bydd pwyllgor Cynulliad yn ystyried eich deiseb (gweler paragraffau 30 a 31), cofiwch mai dim ond y materion y cyfeirir atynt yn y ddeiseb wreiddiol y gall y pwyllgor eu hystyried - ni chewch ychwanegu gwrthwynebiad yn ddiweddarach.

**17.** Ceir deiseb enghreifftiol yn **Atodiad A**; gallwch ddilyn patrwm honno (os dymunwch).

**18.** Dylai deisebwyr fod yn ymwybodol y gellir cyhoeddi'r wybodaeth sydd yn y ddeiseb, gan gynnwys yr enw neu'r enwau sydd arni. Er enghraifft, gellir eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Hefyd, fel arfer, rhoddir y wybodaeth a ddarparwyd i gyd-fynd â'r ddeiseb i'r rheini y mae angen iddynt gael cyfle i gyflwyno gwrth-ddeiseb.

## Rydym am gyflwyno deiseb ar ran mwy nag un person; a oes modd cyflwyno deiseb ar y cyd?

**19.** Oes, gallwch wneud hyn drwy roi enw llawn a chyfeiriad pob deisebydd ar un ddeiseb (gweler paragraff 12.b uchod).

## Sut mae cyflwyno deiseb?

**20.** Gellir cyflwyno deisebau sy'n gwrthwynebu Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft i Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**21.** Gallwch gyflwyno'ch deiseb:

a. drwy ei hanfon ar e-bost i **cysylltu@cynulliad.cymru**;

b. drwy ei chyflwyno'n bersonol yn yr Uned Craffu a Chydgysylltu, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Stryd Pierhead, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA; neu

c. drwy ei phostio i'r cyfeiriad hwnnw (gan sicrhau ei bod yn cyrraedd cyn y terfyn amser a nodir yn yr hysbysiad yn y wasg).

**22.** Gallwch gyflwyno deiseb yn bersonol ar unrhyw ddiwrnod gwaith, ond rhowch wybod i ni ymlaen llaw drwy ysgrifennu, ffonio neu anfon e-bost gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Wrth wneud hynny, byddwch yn sicrhau bod staff ar gael pan fyddwch yn cyrraedd i gyflwyno'r ddeiseb. Bydd hefyd yn osgoi unrhyw ansicrwydd ynghylch y dyddiad cyflwyno ac yn sicrhau bod y ddeiseb yn cael ei throsglwyddo i'r person cywir cyn gynted â phosibl. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gallech roi gwybod i ni sawl deisebydd fydd yn bresennol ar y diwrnod.

## Cael gwybod am ddeisebau eraill

**23.** Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r Cynulliad am yr holl ddeisebau a ddaw i law, a bydd y wybodaeth ar gael ar wefan y Cynulliad.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl cyflwyno'r ddeiseb?

**24.** Bydd y Llywydd yn ystyried yr holl ddeisebau a ddaw i law. Os bydd y Llywydd o'r farn nad yw eich deiseb yn datgelu sail wreiddiol dros wrthwynebu'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig, rhaid iddo roi gwybod i chi a rhoi cyfle i chi gyflwyno sylwadau ysgrifenedig pellach iddo ynghylch y mater. Os bydd y Llywydd yn dal i gredu nad oes gennych sail wreiddiol dros wrthwynebu, fe'ch hysbysir na fydd eich deiseb yn cael ei hystyried ymhellach ac na fydd y ddeiseb yn rhwystro'r Gweinidog rhag gwneud (neu gadarnhau) y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig.

**25.** Ar ôl ystyried eich deiseb ac unrhyw sylwadau pellach, os bydd y Llywydd o'r farn bod eich deiseb yn datgelu sail wreiddiol dros wrthwynebu, bydd yn eich hysbysu ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ei benderfyniad.

## Lleisio barn am ddeisebau sy'n galw am ddiwygiadau a fydd yn effeithio arnoch chi

**26.** Os bydd deiseb yn datgelu sail wreiddiol dros wrthwynebu, ac yn galw am ddiwygio'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig, bydd y Llywydd yn ystyried a fyddai'r diwygiadau hyn yn effeithio ar fuddiannau pobl eraill. Er enghraifft, efallai y byddai diwygiad arfaethedig mewn deiseb yn lleihau effaith y gorchymyn ar eiddo'r person sy'n ei gynnig, ond yn cynyddu'r effaith ar eich eiddo chi.

**27.** Yn y sefyllfa hon, rhaid i'r Llywydd:

a. rhoi gwybod i'r Cynulliad am hyn;

b. hysbysu'r deisebydd am y penderfyniad; ac

c. rhoi cyfle i unrhyw bobl y byddai'r diwygiadau'n effeithio arnynt gyflwyno deisebau'n gwrthwynebu'r diwygiadau hyn – yr enw ar y rhain yw gwrth-ddeisebau.

## Cyflwyno gwrth-ddeiseb: pryd a sut

**28.** Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r cyhoedd bod modd i unrhyw berson gyflwyno gwrth-ddeiseb iddo. Gwneir hyn drwy hysbysiad cyhoeddus mewn papur newydd. Rhaid cyflwyno gwrth-ddeiseb cyn pen 20 diwrnod gwaith[5] sy'n dechrau ar y diwrnod y bydd y Llywydd yn cyhoeddi'r hysbysiad

---

[5] Ystyr diwrnod gwaith yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio:
(i) dydd Sadwrn a dydd Sul;
(ii) Noswyl Nadolig; Dydd Nadolig, dydd Iau Cablyd a dydd Gwener y Groglith;
(iii) diwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru;
(iv) diwrnod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

mewn papur newydd am y tro cyntaf - bydd yr hysbysiad[6] yn cynnwys y terfyn amser.  Ni ellir ystyried gwrth-ddeisebau a gyflwynir ar ôl 20 diwrnod gwaith.

**29.** Rhaid i wrth-ddeisebau gael eu cyflwyno a'u hystyried yn yr un modd â deisebau (gweler paragraffau 11 – 25 uchod).  Ceir gwrth-ddeiseb enghreifftiol yn Atodiad B; gallwch ddilyn patrwm honno (os dymunwch).

# Yr hyn sy'n digwydd ar ôl i'r Llywydd ystyried yr holl ddeisebau

**30.** Bydd unrhyw ddeisebau (a gwrth-ddeisebau) sy'n cynnwys sail wreiddiol dros wrthwynebu ym marn y Llywydd yn cael eu hystyried gan un o bwyllgorau'r Cynulliad, a sefydlir i ystyried y deisebau.  Bydd y Pwyllgor hwnnw yn cyflwyno'i gasgliadau i'r Cynulliad.

# Rhoi barn gerbron y Pwyllgor ar ôl cyflwyno deiseb

**31.** Os penderfynodd y Llywydd fod eich deiseb yn cynnwys sail wreiddiol dros wrthwynebu'r byddwch yn cael gwybod am eich hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor naill ai yn bersonol neu drwy gynrychiolydd, ynghyd â deisebwyr eraill (gan gynnwys gwrth-ddeisebwyr), ac mae'r person sy'n gwneud cais am Orchymyn Gweithdrefn Arbennig (fel arfer, un o Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol). Bydd gan y Gweinidog perthnasol hawl i gymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor hefyd (yn bersonol neu drwy gynrychiolydd) ond ni chaiff bleidleisio.

# Pa gamau fydd y Pwyllgor yn eu cymryd?

**32.** Ar ôl clywed yr holl safbwyntiau, bydd y Pwyllgor yn cyflwyno'i argymhellion i'r Cynulliad.  Bydd yn adrodd y dylai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft:

a. beidio â chael ei wneud neu ei gadarnhau;

b. cael ei wneud neu ei gadarnhau heb ei ddiwygio; neu

c. cael ei wneud neu ei gadarnhau gydag unrhyw ddiwygiadau a fyddai ym marn y pwyllgor yn gweithredu yn llwyr neu'n rhannol unrhyw ddeiseb (neu wrth-ddeiseb).

# Yr hyn fydd yn digwydd ar ôl i'r Pwyllgor wneud ei benderfyniad

**33.** Os bydd y Pwyllgor yn adrodd na ddylai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft gael ei wneud neu ei gadarnhau, ni fydd yn dod yn gyfraith.

**34.** Os bydd y Pwyllgor yn adrodd y dylai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft gael ei wneud neu ei gadarnhau heb ei ddiwygio, caiff un o Weinidogion perthnasol Cymru ei wneud neu ei gadarnhau.

---

[6]Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn ymwneud â hi, ond nid o anghenraid ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad gyntaf.  I gael cadarnhad, cysylltwch â'r Uned Craffu a Chydgysylltu, ffôn 0300 200 6565.

**35.** Os bydd y Pwyllgor yn adrodd y dylai'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft gael ei wneud neu ei gadarnhau gyda diwygiadau, caniateir iddo gael ei wneud neu ei gadarnhau gyda'r diwygiadau hynny.

**36.** Os bydd Gweinidogion Cymru yn ffafrio peidio â gwneud neu gadarnhau'r gorchymyn o gwbl, o ystyried y diwygiadau y mae'r Pwyllgor wedi'u hargymell, rhaid iddo gael ei dynnu'n ôl. Fel arall, caiff Gweinidogion Cymru gynnig y dylai'r Cynulliad cyfan gytuno ei wneud neu ei gadarnhau heb y diwygiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor. Y Cynulliad fydd yn penderfynu wedyn.

**37.** Os na chaiff y Gorchymyn ei wneud neu ei gadarnhau (fel y gallai ddigwydd yn unol â pharagraff 33 neu baragraff 36), ni fydd hyn yn atal un o Weinidogion Cymru rhag gosod Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig drafft arall gerbron y Cynulliad at yr un diben, neu at ddiben tebyg. Mewn achos o'r fath, byddai'n rhaid i'r Gweinidogion ddilyn holl weithdrefnau perthnasol y Cynulliad eto.

## Sut i dynnu deiseb yn ôl na ddymunir bwrw ymlaen â hi

**38.** Gallwch dynnu eich deiseb yn ôl unrhyw bryd. Gellir gwneud cais i dynnu deiseb yn ôl drwy ysgrifennu at y Llywydd:

a. drwy e-bost, i **cysylltu@cynulliad.cymru**; neu

b. drwy lythyr, i'r Uned Craffu a Chydgysylltu, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Stryd Pierhead, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA.

**39.** Os cyflwynwyd eich deiseb yn enw mwy nag un person, gall unrhyw un o'r bobl hyn dynnu ei enw yn ôl o'r ddeiseb. Os bydd yr holl bobl a enwir ar y ddeiseb yn penderfynu tynnu eu henwau'n ôl o'r ddeiseb, ystyrir i'r ddeiseb gael ei thynnu'n ôl. Fodd bynnag, os mai dim ond rhai o'r bobl a enwir ar y ddeiseb sy'n dewis tynnu eu henwau'n ôl, bydd y ddeiseb yn parhau i gael ei hystyried. Gallwch dynnu eich enw'n ôl o ddeiseb drwy e-bost neu drwy'r post fel y nodir uchod.

# ATODIAD A

## Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig

### Deiseb i Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### [TEITL Y GORCHYMYN]

DEISEB YW HON YN ENW: [ENW A CHYFEIRIAD POB UNIGOLYN, CWMNI NEU GYMDEITHAS SY'N CYFLWYNO'R DDEISEB]

**01.** [Rhowch fanylion y deisebwyr,[7] ynghyd â disgrifiad o'ch eiddo neu'ch buddiannau y byddai'r gorchymyn yn effeithio arnynt: os dywedwch y bydd y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn effeithio ar unrhyw ran o'ch tir, rhaid nodi hynny, gyda chynllun os yn bosibl].

**02.** [Rhowch ddatganiad byr a chlir o'ch rhesymau dros wrthwynebu'r gorchymyn. Nodwch a ydych chi am i'r Cynulliad atal y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig rhag cael ei wneud yn gyfan gwbl, neu nodwch unrhyw welliannau yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud i'r gorchymyn, gan roi'ch rhesymau. Os gofyn am welliant i'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yr ydych chi, rhaid i'ch deiseb nodi'n glir sut y dylid ei ddiwygio (hynny yw, rhaid i'ch deiseb gynnwys geiriad y gwelliant a'ch rhesymau drosto)].

Mae'r DEISEBYDD/DEISEBWYR felly yn deisebu Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru [fel na chymeradwyir y Gorchymyn] [neu] [fel y bydd y Gorchymyn yn cael ei ddiwygio fel y nodir yn y ddeiseb hon][8]

[Llofnod y Deisebydd, neu Asiant y Deisebydd] [9]

[Dyddiad cyflwyno]

---

[7] Er enghraifft, "Mae'r Deisebydd cyntaf yn berchennog ar eiddo yn... Yr ail Ddeisebydd yw ...", " Y Deisebwyr yw Cymdeithas..., sef cymdeithas trigolion Heol..., a sefydlwyd yn... er mwyn..."; "Cymdeithas amwynder yw'r ail Ddeisebydd, a'i fuddiannau yw..."

[8] Dewiswch y testun o'r cromfachau fel sy'n briodol – cofiwch y gall deiseb alw am beidio â chymeradwyo Gorchymyn, ond, os caiff ei gymeradwyo, y bydd yn cael ei gymeradwyo gyda'r gwelliannau a nodir yn y ddeiseb.

[9] Os cyflwynir y ddeiseb drwy e-bost, caniateir llofnod ar ffurf testun.

# ATODIAD B

# Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig

## Gwrth-ddeiseb i Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## [TEITL Y GORCHYMYN]

GWRTH-DDEISEB YW HON YN ENW: [ENW A CHYFEIRIAD POB UNIGOLYN, CWMNI NEU GYMDEITHAS SY'N CYFLWYNO'R WRTH-DDEISEB]

1.[Rhowch fanylion y gwrth-ddeisebwyr,[10] ynghyd â disgrifiad o'ch eiddo neu'ch buddiannau y byddai'r gorchymyn yn effeithio arnynt: os dywedwch y bydd y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn effeithio ar unrhyw ran o'ch tir, rhaid nodi hynny, gyda chynllun os yn bosibl]. 2.[Rhowch fanylion y gwelliannau rydych chi'n eu gwrthwynebu, sydd wedi'u cynnig gan ddeisebydd arall sy'n gwrthwynebu'r gorchymyn].

3. [Rhowch ddatganiad byr a chlir o'r rhesymau dros wrthwynebu'r gwelliannau hyn i'r gorchymyn. Nodwch a ydych chi am i'r Cynulliad ddiystyru'r gwelliant i'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn gyfan gwbl, neu nodwch unrhyw welliannau yr hoffech eu gweld yn cael eu gwneud i'r gorchymyn, gan roi'ch rhesymau. Os gofyn am i welliant fynd yn lle gwelliant arall i'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yr ydych chi, rhaid i'ch deiseb nodi'n glir sut y dylid ei ddiwygio (hynny yw, rhaid i'ch deiseb gynnwys geiriad y gwelliant a'ch rhesymau drosto)].

4.[Os cyflwynwyd deiseb gennych ar ôl i un o Weinidogion Cymru gyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus gwreiddiol, h.y. y tro cyntaf y galwyd am ddeisebau'n gwrthwynebu'r gorchymyn, atodwch eich deiseb wreiddiol er hwylustod.]

Mae'r DEISEBYDD/DEISEBWYR felly yn deisebu Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru [fel na chymeradwyir y Gorchymyn os caiff ei ddiwygio yn y ffordd y cyfeirir ati ym mharagraff 2] [neu] [fel y caiff y Gorchymyn ei ddiwygio fel y nodir yn y ddeiseb hon][11]

[Llofnod y Deisebydd, neu Asiant y Deisebydd] [12]

[Dyddiad cyflwyno]

---

[10] Er enghraifft, "Mae'r Deisebydd cyntaf yn berchennog ar eiddo yn... Yr ail Ddeisebydd yw ...", " Y Deisebwyr yw Cymdeithas..., sef cymdeithas trigolion Heol..., a sefydlwyd yn... er mwyn..."; "Cymdeithas amwynder yw'r ail Ddeisebydd, a'i fuddiannau yw..."

[11] Dewiswch y testun o'r cromfachau fel sy'n briodol – cofiwch y gall deiseb alw am beidio â chymeradwyo Gorchymyn, ond, os caiff ei gymeradwyo, y bydd yn cael ei gymeradwyo gyda'r gwelliannau a nodir yn y ddeiseb.

[12] Os cyflwynir y ddeiseb drwy e-bost, caniateir llofnod ar ffurf testun.